

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Lun, Mehefin 29ain 2020 drwy gyfrwng Zoom oherwydd cyfyngiadau argyfwng Covid-19. Yn bresennol oedd Eilir Rowlands, Eifion Davies, Alwyn Jones, Bethan Thomas, Gwenda Evans a'r clerc. Cytunodd Eifion Davies i gadeirio'r cyfarfod.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Rita Jones, Iolo Evans, Maldwyn Jones a'r Cyng. Elwyn Edwards.

i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mai a chafwyd yn gywir.

ii) Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Ymateb Cyngor Gwynedd i'r cwynion a dderbyniwyd:-

i) Cafwyd cadarnhad fod y ffos ar y ffordd gefn rhwng Four Crosses a Tollgate, Glanrafon wedi cael ei chlirio.

iv) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Llywodraeth Cymru.

i) Hysbysiad o waith ail wynebu'r A494 Sarnau i Fethel, rhwng 17/6/20 a'r 01/07/20.

v) Ceisiadau Cynllunio.

a) Derbyniwyd y cais cynllunio canlynol a chytunwyd i'w chefnogi:-

C20/0454/04/LL - Gosod 5 o gytiau bugeiliaid tymhorol. Tir gyferbyn a Cae Coryn, Llandderfel

b) Hysbyswyd y Cyngor o gais Deddf Trwyddedu 2003 gan berchnogion Gerddi, Caerau Uchaf, Sarnau. Nid oedd unrhyw wrthwynebiad i'r defnydd a ofynnwyd am.

vi) Materion Ariannol.

a) Ffurflen Archwiliad Blynyddol.

Yn dilyn archwiliad trwyadl o gyfrifon y Cyngor, derbyniwyd adroddiad yr archwilwyr mewnol. Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd mynegwyd eu sicrwydd yn nhrefniadau llywodraethu a datganiadau cyfrifyddu'r Cyngor Cymuned ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019-20. Cytunwyd yn unol â gofynion y datganiadau Cyfrifyddu a Llywodraethu yn y ffurflen Archwiliad Blynyddol. Cytunodd y clerc wneud trefniadau i gwrdd gyda'r cadeirydd i arwyddo'r ffurflen ac yna y byddai'n ei hanfon ymlaen i'r archwilwyr allanol.

b) Cynllun Pensiwn Gweithle.

Cafwyd cadarnhad gan y clerc ei bod wedi cwblhau'r ailddatganiad cydymffurfio.

c) Ceisiadau ariannol

Trafodwyd y ceisiadau ariannol a garwyd ymlaen o'r cyfarfod diwethaf a chytunwyd i gyfrannu £100 i Tŷ Gobaith a Tarian Cymru.

vii) Materion lleol.

Nid oes unrhyw fater wedi codi.

Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Medi 1af am 7.30 y.h. drwy gyfrwng "Zoom"